# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 15FED MAWRTH, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 5 Mawrth 2021)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Steve Collings | Annwen Hughes |
| Dafydd Owen | Edgar Wyn Owen |
| Elfed Williams | Gareth Tudor Morris Jones |
| W. Gareth Roberts | Elin Walker Jones |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Eryl Jones-Williams |
| Jason Wayne Parry | Angela Russell |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Gareth Williams

## Aelod Unigol (2)

Y Cynghorydd W Roy Owen
Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2020/21

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is Gadeirydd ar gyfer 2020/21

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 2il o Ragfyr 2019 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 7 - 44

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

1. 26-01-2021
2. 08-12-2020
3. 22-10-2020
4. 06-10-2020
5. 09-07-2020
6. 09-03-2020
7. 12-02-2020
8. 18-12-2019
9. 21-11-2019

## 8. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2021/22 45 - 51

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo ffioedd arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 12.02.19**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Roy Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, W Gareth Roberts, Elfed W. Williams (Cadeirydd) a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Angela Russell

Croesawyd y Cynghorydd W Gareth Roberts fel aelod newydd i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Medi 9fed 2019 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU**

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd 1af o Awst 2019, 18 Medi 2019, 20 Medi 2019 a'r 7fed o Hydref 2019

**6. DIRPRWYO HAWLIO I BENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU TACSI**

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Amgylchedd yn gofyn i'r Pwyllgor gefnogi'r egwyddor o adolygu'r cynllun dirprwyo cyfredol. Eglurwyd bod gan y Cyngor, fel Awdurdod Trwyddedu ddyletswydd o dan y Ddeddf Cymalau Heddluoedd Trefol 1847 a'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i drwyddedu gyrwyr a cherbydau hurio preifat a hacni, a gweithredwyr. Ategwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod y sawl sydd yn ymgeisio am drwydded gyrrwr/ gweithredwr, neu'n ymgeisio i adnewyddu trwydded o'r fath, yn unigolyn 'addas a phriodol' i ddal y drwydded honno. Atgoffwyd yr Aelodau mai prif bwrpas trwyddedu cerbydau, gweithredwyr a gyrwyr yw diogelu iechyd y

cyhoedd. Dyma'r flaenoriaeth mae'r Cyngor wedi ei ystyried wrth fabwysiadau trefn bwrpasol i geisio cyfarch hyn.

Tynnwyd sylw at eiriad y Cyfansoddiad sydd yn gosod trefn benodol o ran pa benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo i swyddogion; a pha benderfyniadau sydd yn disgyn o dan gyfrifoldebau'r Is-Bwyllgor ynghyd a'r hawliau dirprwyedig sydd wedi ei dirprwyo i Pennaeth yr Amgylchedd sydd yn awdurdodi swyddogion ar ei ran.

Wrth drafod y drefn bresennol nodwyd bod gwydnwch i benderfyniadau'r Is Bwyllgor oherwydd bod pob ymgeisydd yn derbyn gwrandawiad teg. Rhoddir cyfle i bob ymgeisydd roi cefndir o ran y troseddau ac mae adroddiad ac argymhelliad y Swyddog Trwyddedu yn ogystal â thystiolaeth a gyflwynir yn sicrhau bod gan yr Is bwyllgor y dystiolaeth ar wybodaeth angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniad. Bydd yr ymgeisydd yn derbyn eglurhad llawn ar lafar ac yn ysgrifenedig am resymeg y penderfyniad gan y Cyfreithiwr.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at bedwar opsiwn dechreuol a gynigiwyd gan Pennaeth yr Amgylchedd. Amlygwyd bod trefniadau dirprwyo penderfyniadau yn amrywio o Gyngor i Gyngor, ond o safbwynt Cyngor Gwynedd amlinellwyd bod rôl bwysig i'r Is Bwyllgor yng nghyd-destun gwneud penderfyniadau, ond bod her o ddiffinio beth yw'r amgylchiadau lle dylid cyfeirio cais i Is bwyllgor.

Cynigwyd ac eiliwyd i ystyried adolygu'r cynllun dirprwyo cyfredol gan roi hawl i'r Gwasanaeth Trwyddedu, mewn ymgynghoriad gyda'r Adran Gyfreithiol i ymchwilio ymhellach i'r opsiynau dechreuol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Derbyn bod rhai ymgeiswyr yn aros yn hir am benderfyniad
- Bod rhai penderfyniadau yn hawdd i'w dirprwyo
- Bod llwyth gwaith di angen yn cael ei greu gan y drefn bresennol
- Bod yr Is bwyllgor yn barod i gymryd y baich yn hytrach na rhoi gormod o gyfrifoldeb ar swyddog
- Bod hi'n amser moderneiddio ac adolygu'r drefn
- Bod rhaid ystyried ymddygiad os nad oes collfarn

Ategodd y Cyfreithiwr bod geiriad yr opsiynau yn yr adroddiad yn rhy gyffredinol a bod angen sicrhau geiriad pendant, manwl a phenodol i'r opsiynau terfynol

**PENDERFYNWYD,**

- **derbyn yr adroddiad**
- **cefnogi'r egwyddor o'r adolygu'r cynllun dirprwyo cyfredol**
- **Ystyried yr opsiynau dechreuol a rhoi cymeradwyaeth i'r Gwasanaeth Trwyddedu mewn ymgynghoriad gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol i edrych mewn mwy o fanylder ar yr opsiynau neu gyfuniad ohonynt ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gydag opsiynau terfynol a'r opsiwn a ffafrir cyn diwedd Mawrth 2020.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:50am

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 26-01-21**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Anwen Hughes (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gareth Jones ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

   Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Amlygwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi datgan fod ganddo euogfarnau blaenorol ar ei gais ac yn awgrymu iddo ymhelaethu ar hyn. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd bod digwyddiad 2018 wedi digwydd ar dir preifat a'i fod wedi derbyn cyngor nad oedd angen adrodd ar y ddamwain. Ategodd bod Uned Iechyd a Diogelwch y Cyngor ac Uned Iechyd a Diogelwch y Swyddfa Bost yng Nghibyn, Caernarfon wedi cofnodi'r digwyddiad. Amlygodd, petai ei gais yn llwyddiannus, y byddai yn rhedeg cwmni Tacsi.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Gorffennaf 1980 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Caernarfon a Gwyrfai ar un cyhuddiad o ymosodiad oedd yn achosi gwir niwed corfforol yn groes i a47 Deddf Troseddau Corfforol 1861. Derbyniodd ddirwy o £20.00

Ym Mehefin 2018 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Gogledd Ddwyrain Cymru ar un cyhuddiad o fethu ac adrodd ar ddamwain yn groes i a170 (4) Deddf Traffig Ffyrdd 1988. Derbyniodd ddirwy o £325.00 ac ardystiwyd ei drwydded yrru.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae AC20 (methu rhoi manylion neu adrodd am ddamwain o fewn 24 awr). Mae paragraff 12.3 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

d) Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod collfarn Gorffennaf 1980 yn drosedd o drais, fodd bynnag, gan fod y gollfarn wedi digwydd 40 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 6.5 yn goroesi, ac felly nid yn sail i wrthod y cais

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod collfarn Mehefin 2018 yn ymwneud â throsedd traffig difrifol, fodd bynnag, gan fod y gollfarn wedi digwydd 2 flynedd yn ôl a'r ymgeisydd wedi bod yn rhydd rhag collfarn am o leiaf 6 mis, nid oedd paragraff 12.3 yn goroesi, ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

e) Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:30

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Dafydd Owen a Gareth Williams
**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd (ei ddarpar gyflogwr) i ymhelaethu ar gais Mr A gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd bod y digwyddiadau a gofnodwyd ar y DBS yn rhai hanesyddol. Amlygwyd bod Mr A wedi bod yn gweithio fel dosbarthwr nwyddau ers rhai blynyddoedd a'i fod bellach eisiau newid

cyfeiriad. Nodwyd hefyd, mewn achos lle ceir collfarnau hanesyddol, bod angen ystyried adolygu Polisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd

b) **PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan ddarpar gyflogwr yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Mehefin 1985 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Bangor ar dri chyhuddiad o ddwyn, yn groes i a1 Deddf Lladrata 1968. Derbyniodd orchmynion gwasanaeth cymunedol o 300 awr am y cyhuddiadau hyn.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, lladrata.

d) Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod collfarn Mehefin 1985 yn droseddau o anonestrwydd, fodd bynnag, gan fod y collfarnau hyn wedi digwydd dros 35 mlynedd yn ôl nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd

gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd bod y digwyddiadau a gofnodwyd ar y DBS yn rhai hanesyddol. Amlygwyd Mr B ei fod, pan yn ifanc wedi cymysgu gyda'r dorf anghywir, ei fod cwblhau ei ddedfrydau ac wedi bod yn glir o unrhyw drosedd ers 37 mlynedd.

b) **PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd**.

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau llafar yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Medi 1972 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Tywyn am ddifrod troseddol yn groes i a1 Ddeddf Difrod Troseddol 1971. Derbyniodd ddirwy o £100.00 a gorchymyn i dalu iawndal o £13.00.

Yn Hydref 1972 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Tywyn am ymosodiad cyffredin yn groes i a42, 47 Deddf Troseddau yn erbyn y Person 1861) ynghyd a meddu ar arf peryglus mewn man cyhoeddus yn groes i a1 Deddf Atal Troseddu 1953. Derbyniodd ryddhad amodol a chafodd yr arf ei atafaelu (confiscate)

Yn Hydref 1975 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Tywyn ar gyfres o 12 cyhuddiad. 2 gyhuddiad yn ymwneud â gwneud galwadau ffôn bygythiol (yn groes i a78 Deddf Swyddfa'r Post 1969): 1 cyhuddiad o osod erthygl ar eiddo Swyddfa'r Post (yn groes i a 61 Deddf Swyddfa'r Post 1969): 1 cyhuddiad o achosi difrod troseddol (yn groes i a1 Deddf Difrod Troseddol 1971): 4 cyhuddiad o gario dryll aer mewn man cyhoeddus (yn groes i a19 Deddf Drylliau Tân 1968): 1 cyhuddiad o ddefnyddio geiriau bygythiol / ymosodol/ sarhaus (yn groes i a5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1936): 3 cyhuddiad o saethu arf oddi fewn 50 medr o'r briffordd (yn groes i a161 Deddf Priffyrdd 1980). Derbyniodd orchmynion dirwyon a chostau a chafodd ei ddedfrydu i 3 mis mewn canolfan gadw.

Yn Medi 1982 cafodd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Tywyn ar gyhuddiad o achosi niwed drwy ymosodiad corfforol difrifol yn groes i a20 Deddf Troseddau yn erbyn y Person 1861. Derbyniodd ddedfryd o garchar am 6 mis (wedi'i ohirio am 2 flynedd) ynghyd a dirwy o £100.00 a gorchymyn i dalu costau o £3.00.

Yn Medi 1983 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Tywyn ar gyhuddiad o wastraffu amser yr Heddlu (yn groes i a 5(2) Deddf Cyfraith Droseddol 1967) ac am ddefnyddio geiriau bygythiol / ymosodol/ sarhaus (yn groes i a 5(1)(a) Deddf Trefn Gyhoeddus 1986). Derbyniodd ddirwy o £300.00 a gorchymyn i chi dalu costau o £3.00.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.4 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am achosi niwed corfforol difrifol gyda bwriad a/neu fod a dryll yn ei feddiant, sydd yn llai na 10 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae paragraff 6.6 o'r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf

d) Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod yr holl gollfarnau a rhestri'r uchod yn ymwneud a throseddau o drais, fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiweddaraf wedi ei gosod yn 1983, 37 mlynedd yn ôl, nid oedd paragraffau 6.4,.6.5 a.6.6 yn goroesi, ac felly nid yn sail i wrthod y cais

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 14 :00 a daeth i ben am 15:10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

   Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

   Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd bod y digwyddiadau a gofnodwyd ar y DBS yn rhai hanesyddol a'i fod erbyn hyn gyda theulu ac yn yrrwr HGV a PSV profiadol. Ei fwriad oedd sefydlu busnes i'w feibion.

b) **PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- Tystysgrif meddygol yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Mai 1991 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Bangor ar gyhuddiad o ddifrod troseddol (yn groes i a1 Deddf Difrod Troseddol 1971), derbyn arian drwy dwyll ( yn groes i a15 Deddf Dwyn 1968) a lladrata (yn groes i a1 Deddf Dwyn 1968). Derbyniodd cyfanswm dirywion o £275 a gorchymyn i dalu £53.00 o iawndal a chostau o £15 am dderbyn arian drwy dwyll.

Yn Rhagfyr 1991 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon am gyhuddiad o ddifrod troseddol yn groes i a1 Deddf Difrod Troseddol 1971. Derbyniodd ddirwy o £100 a gorchymyn i dalu iawndal o £276.91.

Yn Mai 1998 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys y Goron Caernarfon ar gyhuddiad o fyrgleriaeth ddifrifol / treisgar yn groes i a10 Deddf Dwyn 1968. Derbyniodd yr ymgeisydd ddedfryd o 3 mlynedd o garchar.

Yn Awst 2000 dyfarnwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Aberconwy ar gyhuddiad o fethu a darparu sampl prawf yn groes i a7 Deddf Traffig Ffordd 1988. Derbyniodd ddirwy o £200, gorchymyn i dalu costau o £35 a gwaharddiad rhag gyrru am 20 mis gyda'r dewis o leihau'r cyfnod cosb o 25% drwy gwblhau cwrs erbyn Medi 2001.

Yn Hydref 2001 cafodd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Sir Ddinbych am ddefnyddio cerbyd heb yswiriant yn groes i a143 Deddf Traffig Ffordd 1988, a gyrru yn ystod gwaharddiad yn groes i a103 Deddf Traffig Ffordd 1988. Ni dderbyniodd gosb ar gyfer defnyddio cerbyd heb yswiriant ond derbyniodd orchymyn cosb gymunedol o 80 awr, gorchymyn i dalu costau o £55 a gwaharddiad gyrru am 12 mis am yrru yn ystod gwaharddiad.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.. Mae paragraff 6.6 o'r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag

un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, bwrgleriaeth a chael eiddo drwy dwyll.

Ystyriwyd paragraff 11.0 sydd yn cyfarch troseddau o yfed a gyrru. Ym mharagraff 11.1 fe nodir y byddai ystyriaeth ddifrifol i gollfarnau am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau. Bydd un sydd wedi ei gael yn euog o droseddau yn ymwneud ag yfed a gyrru yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Ymdrinnir yn yr un modd a chollfarn am 'wrthod neu fethu darparu sampl'

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda paragraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae BA10 (gyrru yn ystod gwaharddiad dan orchymyn y Llys) a IN10 (defnyddio cerbyd sydd heb ei yswirio). Nodir bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod (12.10) os oes cofnod o waharddiad gyrru am gyfnod o 12 mis neu fwy, oni bai bod 18 mis wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

d) Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod collfaranu Mai 1991 a Rhagfyr 1991 yn yn ymwneud â throseddau o drais.. Fodd bynnag, ers i'r gollfarn ddiweddaraf ddigwydd dros 10 mlynedd yn ôl, nid oedd paragraff 6.6 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais,

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod collfaranu a chyhuddiadau Mai 1991 a Medi 1998 yn droseddau o anonestrwydd fodd bynnag, gan fod y collfarnau hyn wedi digwydd dros 3 mlynedd yn ôl nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad nad oedd paragraff 11.1 yn berthnasol mewn perthynas â chollfarn Awst 2000 gan fod y gollfarn yn fwy na 3 blwydd oed. O ran collfarn Hydref 2001 ( am ddwy drosedd Traffig), canfuwyd yr Is-bwyllgor bod y cyhuddiadau yn drosddau traffic difrfiol, fodd bynnag, gan fod y gwaharddiadau gyrru wedi dirwyn i ben ers dros 18 mis, nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod paragraff 12.10 yn sail i wrthod y cais.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o blaid caniatau y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 14 :00 a daeth i ben am 14 :50

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Angela Russell a Gareth T M Jones

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd bod y digwyddiadau a gofnodwyd ar y DBS yn rhai hanesyddol a'i fod erbyn hyn wedi aeddfedu, wedi newid ei ymddygiad ac yn rhiant. Ategodd ei fod wedi cael cynnig gwaith fel gyrrwr tacsi petai ei gais yn cael ei ganiatáu.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Hydref 2010 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Gwynedd ar gyhuddiad o ddefnyddio ymddygiad afreolus neu eiriau bygythiol / ymosodol / sarhaus sydd yn debygol o achosi aflonyddwch, ofn neu ofid yn groes i a5 (1) (A) Deddf Trefn Gyhoeddus 1986. Derbyniodd ryddhad amodol am 12 mis a gorchymyn i dalu £85.00 o gostau. Ym mis Mawrth 2011 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Gwynedd ar gyhuddiad o ymosodiad cyffredin yn groes i a39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988. Derbyniodd orchymyn cymunedol o 6 mis, 2 fis o hwyrgloch (curfew?) gyda thag electronig i aros mewn cyfeiriad yn ardal Abermaw bob dydd rhwng 19:00 - 07:00 a gorchymyn i dalu costau o £85.00.

Yn Medi 2019 derbyniodd 3 pwynt cosb am ddigwyddiad o oryrru. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ar lafar bod y manylion ar y drwydded (a ddarparwyd gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau) yn gywir a'i fod wedi derbyn rhybudd cosb sefydlog gan yr Heddlu am y digwyddiad hwn. Cadarnhaodd hefyd ei fod wedi goryrru mewn digwyddiad pellach ar ddyddiad amhenodol, ond ei fod wedi dilyn cwrs ymwybyddiaeth cyflymder mewn perthynas â'r digwyddiad hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn cadarnhau bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys rhybuddion. Mae paragraff 2.4 o'r Polisi yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais ynghyd a throsedd o dan Adran 5 Deddf Trefn Cyhoeddus 1986. Mae paragraff 6.6 o'r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi. Ystyriwyd paragraff 13.2 sydd yn amlygu gall un gollfarn am fan drosedd gyrru arwain at wrthod y cais. Nodir ym mharagraff 13.3 y gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru

d) Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod y digwyddiadau goryrru yn gyfystyr â mân droseddau traffig. Er bod y Polisi yn caniatáu gwrthod y cais o dan yr amgylchiadau hyn, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn gan nad oedd yr ymgeisydd wedi ei gollfarnu a'i fod wedi dilyn cwrs ymwybyddiaeth cyflymder ar gyfer un digwyddiad, na ddylai'r digwyddiadau goryrru fod yn sail ar gyfer gwrthod y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarnau Hydref 2010 a Mawrth 2011 yn ymwneud â throseddau o drais. Er i'r ymgeisydd dderbyn collfarnau, roedd y ddau achos wedi digwydd dros 3 blynedd yn ôl, ac felly nid oeddynt yn sail i wrthod y cais o dan baragraff 6.5. Fodd bynnag, gyda dwy euogfarn am droseddau trais yn digwydd o fewn 10 mlynedd i'r cais, roedd rhaid i'r Is-bwyllgor ystyried gwrthod y cais o dan baragraff 6.6.

Amlygodd y Cyfreithiwr nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi ar yr argymhellion os yw ffeithiau'r achos yn cyfiawnhau hynny. Rhoddwyd sylw arbennig i baragraff 5.1 o'r adroddiad, sydd yn cynnwys difrifoldeb y troseddau, perthnasedd, dyddiad y cafodd y drosedd ei chyflawni, dyddiad y gollfarn ac oedran yr ymgeisydd ar adeg y gollfarn, y ddedfryd a roddwyd gan y Llys ac os yw'r troseddau yn perthyn i batrwm o droseddu, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor sylw arbennig i'r ffaith, ar ddyddiad y gwrandawiad, bod collfarn Hydref 2010, 3 wythnos yn brin o'r cyfnod 10 mlynedd. Roedd collfarn Mawrth 2011 hefyd wedi digwydd dros 9 mlynedd yn ôl. Pe byddai'r gwrandawiad ar gyfer y cais hwn yn cael ei gynnal 3 wythnos i'r dyfodol, ni fyddai unrhyw ystyriaethau yn cael ei rhoi i baragraff 6.6. Ategwyd, yn ogystal, er bod yr ymgeisydd wedi camymddwyn yn y gorffennol, ei fod bellach wedi aeddfedu a bod tystiolaeth o hyn i'w weld yn y cofnod DBS gyda llechen lan wedi ei chadw ers bron i ddegawd.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon gwyro oddi wrth y dybiaeth o blaid gwrthod y cais yn yr achos yma a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat. Anogwyd yr ymgeisydd i dderbyn y cyfle ac i yrru yn arafach a chyfrifol.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00 a daeth i ben am 11:55

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd a'i ddarpar gyflogwr i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y collfarnau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Eglurodd darpar gyflogwr yr ymgeisydd bod y digwyddiadau a gofnodwyd ar y DBS yn rhai hanesyddol ac wedi digwydd pan roedd Mr A yn mynd drwy gyfnod anodd yn ei arddegau. Ategodd ei fod yn

ymwybodol o'i gefndir ac wedi trafod a chael geirda gan gyflogwyr eraill yr ymgeisydd, ei fod yn barod i roi cyfle iddo.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd a'i ddarpar gyflogwr

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Ebrill 1999 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Tameside ar dri cyhuddiad: cymryd cerbyd heb ganiatâd (yn groes i a12 (1) Deddf Lladrata 1968); gyrru'n groes i amodau trwydded gyrru (yn groes i a87 (1) Deddf Traffig y Ffyrdd 1988) a defnyddio cerbyd heb yswiriant (yn groes i a143 (2) Deddf Traffig y Ffyrdd 1988). Derbyniodd ryddhad amodol am 12 mis, ardystiad 7 pwynt ar ei drwydded a gorchymyn i dalu £55.00 o gostau.

Yn Mai 2001 cafwyd yn euog gan Lys Ynadon yr Wyddgrug ar gyhuddiad o ddinistrio neu ddifrodi eiddo (yn groes i a1 (1) Deddf Difrod Troseddol 1971). Derbyniodd ddirwy o £50.00, gorchymyn i dalu costau o £40.00 ac iawndal o £ 50.00.

Yn Chwefror 2003 cafwyd yn euog gan Lys Ynadon Conwy ar ddau gyhuddiad o ddefnyddio cerbyd heb yswiriant (yn groes i a143 (2) Deddf Traffig Ffyrdd 1988) a gyrru yn ystod cyfnod gwaharddiad (yn groes i a103 (1) (B) Traffig Ffyrdd 1988). Derbyniodd orchymyn cost cymuned o 120 awr, dirwy o £50.00, gorchymyn i dalu costau o £30.00 ac ardystiad 6 phwynt ar ei drwydded.

Yn Awst 2003 cafwyd yn euog gan Lys Ynadon Sir Ddinbych ar ddau gyhuddiad o ddefnyddio cerbyd heb yswiriant (yn groes i a143 (2) Deddf Traffig Ffyrdd 1988) a gyrru yn ystod cyfnod gwaharddiad (yn groes i a103 (1) (B) Traffig Ffyrdd 1988). Derbyniodd orchymyn adfer cymunedol am 18 mis, gorchymyn cosb cymuned am 100 awr, ei wahardd rhag gyrru hyd nes bod prawf estynedig yn cael ei basio a gorchymyn i dalu costau o £35.00. Diddymwyd y gorchymyn yn Medi 2004 oherwydd cynnydd da.

Yn Ionawr 2005 cafwyd yn euog gan Lys Ynadon Conwy ar dri chyhuddiad o fod yn gyrru yn ystod cyfnod gwaharddiad (yn groes i a103 (1) (B) Deddf Traffig Ffyrdd 1988), defnyddio cerbyd heb yswiriant (yn groes i a143 (2) Deddf Traffig Ffyrdd 1988) a meddu ar arf bygythiol mewn man cyhoeddus (yn groes i a1 Deddf Atal Troseddu 1953). Derbyniodd orchymyn adfer cymunedol am 2 flynedd, gorchymyn cosb cymuned am 100 awr, gorchymyn hwyrgloch am 6 mis, gorchymyn i dalu costau o £55.00 a gwaharddiad rhag gyrru hyd nes bod prawf estynedig yn cael ei basio. Am feddu arf bygythiol derbyniodd orchymyn adfer cymunedol am 2 flynedd, gorchymyn cosb cymuned am 100 awr, gwaredu'r ffon hoci a gorchymyn hwyrgloch am 6 mis.

Yn Chwefror 2005 cafwyd yn euog gan Lys Ynadon Conwy ar ddau gyhuddiad o ddefnyddio cerbyd heb yswiriant (yn groes i a143 (2) Deddf Traffig Ffyrdd 1988) a gyrru yn ystod cyfnod gwaharddiad (yn groes i a103 (1) (B) Traffig Ffyrdd 1988). Cafodd ei garcharu am 6 wythnos ac ardystiwyd ei drwydded yrru gyda 6 phwynt.

Yn Awst 2005 cafwyd yn euog gan Lys Ynadon Tameside ar bedwar cyhuddiad (2 achlysur unigol) - 2 gyhuddiad o fod yn gyrru yn ystod cyfnod gwaharddiad (yn groes i a103 (1) (B) Deddf Traffig Ffyrdd 1988) a 2 gyhuddiad o ddefnyddio cerbyd heb yswiriant (yn groes i a143 (2) Deddf Traffig Ffyrdd 1988). Derbyniodd ddedfryd ohiriedig o 5 mis o garchar ac ardystiwyd ei drwydded yrru. Ar gyfer gyrru mewn cyfnod gwaharddiad derbyniodd 5 mis o garchar pellach, wedi'i ohirio am 18 mis. Cafodd hefyd orchymyn goruchwylio am 12 mis, ei wahardd rhag gyrru am 2 flynedd ac ardystiwyd ei drwydded gyrru.

Yn Medi 2008 cafwyd yn euog gan Lys Ynadon Gwynedd ar dri chyhuddiad o fod yn gyrru yn ystod cyfnod gwaharddiad (yn groes i a103 (1) (B) Deddf Traffig Ffyrdd 1988), defnyddio cerbyd heb dystysgrif prawf (yn groes i a47 (1) Deddf Traffig Ffyrdd 1988) a defnyddio cerbyd heb ei yswirio (yn groes i a143 (2) Deddf Traffig Ffyrdd 1988). Derbyniodd orchymyn cymuned am 12 mis gydag amod goruchwyliaeth, gwaharddiad rhag gyrru am 12 mis a gorchymyn i dalu costau o £60.00. Am yrru heb yswiriant derbyniodd orchymyn cymunedol am 12 mis (cydamserol gydag amod goruchwylio).

Yn Medi 2009 cafwyd yn euog gan Lys Ynadon Conwy ar ddau gyhuddiad o ddinistrio neu ddifrodi eiddo (yn groes i Ddeddf Niwed Troseddol 1971) ac ymosodiad cyffredin (yn groes i adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988). Derbyniodd orchymyn cymunedol am 12 mis, gorchymyn i dalu iawndal o £329.00 a chostau o £250.00. Derbyniodd orchymyn cymunedol pellach am 6 mis a gofyniad gweithgaredd am 12 diwrnod am yrru heb yswiriant.

Yn Rhagfyr 2010 cafwyd yn euog gan Lys Ynadon Conwy ar gyhuddiad o fethu â chydymffurfio â gofynion gorchymyn cymunedol (yn groes i atodlen 8 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003). Gorchmynnwyd iddo dalu costau o £85.00, parhau gyda gorchymyn a osodwyd yn wreiddiol yn Medi 2010 a pharhau gyda gofyniad gweithgaredd o 6 diwrnod

Yn Ionawr 2018 derbyniodd 3 phwynt cosb am un digwyddiad o oryrru.

(Cyfanswm o 10 collfarn ac 1 digwyddiad o oryrru mewn cyfnod o 19 mlynedd rhwng 1999 a 2018).

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn cadarnhau bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys rhybuddion.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.2 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded yn cael ei atal neu ddirymu os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a difrod troseddol sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae paragraff 6.6 o'r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o’r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, mynd a cherbyd heb ganiatâd.

Mae rhan 12 o’r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda paragraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae BA10 (gyrru yn ystod gwaharddiad dan orchymyn y Llys) a IN10 (defnyddio cerbyd sydd heb ei yswirio). Mae paragraff 12.3 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf. Mae paragraff 12.4 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os yw’r ymgeisydd wedi cyflawni mwy nag un trosedd traffig difrifol o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf ac na ddylid ystyried unrhyw gais pellach hyd nes bod cyfnod o 3 blynedd oleiaf wedi mynd heibio yn rhydd o gollfarn. Mae paragraffau 12.6 i 12.11 yn delio â gwaharddiadau gyrru gyda pharagraff 12.10 yn benodol yn nodi na fydd cais fel rheol yn cael ei ganiatáu i berson sydd wedi'i wahardd am gyfnod o 12 mis neu fwy, oni bai bod cyfnod o 18 mis oleiaf wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac fe ystyriwyd paragraff 13.3 sydd yn amlygu gall un gollfarn am fan drosedd traffig awrain at wrthod y cais yn enwedig os oes sawl collfarn i’w hysytired ar gyfer un drosedd.

Mae paragraff 16.1 o’r Polisi yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau’n bodloni canllawiau’r polisi yn unigol, ond gyda’i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Mae rhan 17 o’r Polisi yn ymwneud â thorri deddf, is-ddeddf neu amod trwydded. Nodir ei fod yn annhebygol y rhoddir trwydded i ymgeisydd â ganddo gollfarn neu fater arall i’w ystyried yn gysylltiedig â thorri deddf, oni bai bod cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar.

d) Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 1999 yn drosedd o anonestrwydd, fodd bynnag, gan fod y gollfarn wedi digwydd dros 21 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i’r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais, er y gallai mewn cyfuniad a chollfarnau eraill, gael ei ystyried o dan baragraff 16.1.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod collfarn Mai 2001, Ionawr 2005 (meddu ar arf) a Medi 2009 i gyd yn droseddau o drais. Fodd bynnag, ers i'r gollfarn ddiweddaraf ddigwydd dros 10 mlynedd yn ôl, (sydd tu hwnt i’r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 6.5 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais, er y gallai, mewn cyfuniad a chollfarnau eraill, gael ei ystyried o dan baragraff 16.1.

Gan nad oedd gwybodaeth collfarn Rhagfyr 2010 â pherthnasedd i faes penodol o fewn y Polisi, ystyriwyd darpariaethau rhan 17. Gan fod cyfnod o oleiaf 12 mis ers y gollfarn, nid oedd yn sail i wrthod y cais ond eto, mewn cyfuniad a chollfarnau eraill, gallai gael ei ysytired o dan paragraff 16.1.

Yng nghyd-destun y collfarnau eraill daeth yr Is-bwyllgor i’r casgliad bod y collfarnau yn ymwneud â throseddau traffig difrifol. Fodd bynnag, ers i’r gollfarn ddiweddaraf ddigwydd dros 11 mlynedd yn ôl, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn na ddylai’r collfarnau hyn fod yn sail i wrthod o dan baragraff 12.4, ond eto, mewn cyfuniad a chollfarnau eraill, gallai gael ei ysytired o dan paragraff 16.1. Nodwyd bod sawl achos o waharddiadau rhag gyrru (2003,

2005 a 2008), ond gan nad oedd gwaharddiad o fewn yr 18 mis diwethaf, nid oedd unrhyw sail i wrthod y cais o dan paragraff 12.10.

Fodd bynnag, roedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod yr holl gyhuddiadau gyda'i gilydd yn gyfystyr â aildroseddu oedd yn dangos diffyg parch at les eraill neu at eiddo. O ganlynaid ystyriwyd paragraff 16.1 o'r Polisi ac ar y sail yma yn unig, rhagdybiwyd yr angen i wrthod y cais.

Amlygodd y Cyfreithiwr nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi ar yr argymhellion os yw ffeithiau'r achos yn cyfiawnhau hynny. Rhoddwyd sylw arbennig i baragraff 5.1 o'r adroddiad, sydd yn cynnwys difrifoldeb y troseddau, perthnasedd, dyddiad y cafodd y drosedd ei chyflawni, dyddiad y gollfarn ac oedran yr ymgeisydd ar adeg y gollfarn, y ddedfryd a roddwyd gan y Llys ac os yw'r troseddau yn perthyn i batrwm o droseddu, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor sylw arbennig i drosedd goryrru 2018. Heblaw am y digwyddiad yma, collfarn Rhagfyr 2010 fuasai'r gollfarn olaf i ymddangos gyda pharagraff 16.1 yn sail i wrthod y cais (o ychydig fisoedd yn unig). Amlygwyd bod bron i ddegawd wedi mynd heibio ers Rhagfyr 2010 ac nad oedd yr ymgeisydd wedi cael unrhyw gollfarnau ers hynny. Roedd digwyddiad goryrru 2018 yn fân drosedd traffig, ac er yn destun pryder, nid oedd yn cymharu gyda lefelau difrifoldeb troseddau traffig difrifol blaenorol roedd yr ymgeisydd yn gysylltiedig a hwy. O dan yr amgylchiadau, barn yr Is-bwyllgor oedd bod y digwyddiad hwn, o gymharu a'r collfarnau eraill ddim yn ymddangos 'o fewn ysbryd  paragraff 16.1'.

Ystyriwyd sylwadau darpar gyflogwr yr ymgeisydd oedd wedi egluro bod gan yr ymgeisydd brofiad o weithio i gwmni dosbarthu parseli a gwneud gwaith gydag achrediad SIA mewn ysbyty leol. Ystyriwyd hyn fel arwydd bod cyflogwyr eraill wedi gweld yr ymgeisydd fel person addas ar gyfer gwaith o'r fath. Ategwyd, yn ogystal, er fod  yr ymgeisydd wedi camymddwyn yn y gorffennol, ei fod bellach wedi aeddfedu a bod tystiolaeth o hyn i'w weld yn y cofnod DBS.

Roedd hwn yn gais anodd i'r Is-bwyllgor ei benderfynu ac er bod cryfderau i'r cais roedd gwendidau iddo hefyd. Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon gwyro oddi wrth y dybiaeth o blaid gwrthod y cais yn yr achos yma ac o dan yr amgylchiadau penderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat. Anogwyd yr ymgeisydd i dderbyn y cyfle i wella ei hun ymhellach.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:35

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 09.03.2020**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Ms A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Ms A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd a'i darpar gyflogwraig i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y collfarnau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Eglurodd yr ymgeisydd bod y digwyddiadau a gofnodwyd ar y DBS yn rhai hanesyddol ac wedi digwydd pan oedd yn mynd drwy gyfnod anodd yn ei harddegau. Ategodd ei bod gyda phlentyn ei hun erbyn

hyn ac eisiau gosod esiampl dda a chael sefydlogrwydd yn ei bywyd. Nododd darpar gyflogwraig yr ymgeisydd ei bod yn ymwybodol o gefndir Ms A, ond bod ganddi ffydd ynddi ac yn barod i roi cyfle iddi. Ategwyd ei bod wedi derbyn geirda gan gyngyflogwr Ms A fel gofalwr mewn cartref plant.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd a'i darpar gyflogwr

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd ym Mehefin 2003 gan Heddlu Gogledd Cymru am ymosodiad a achosodd niwed corfforol i berson arall yn groes i Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861. Ym Medi 2004 derbyniodd gollfarn gan Lys Ieuenctid Conwy am drosedd yn gysylltiedig â chymryd cerbyd heb awdurdod sydd yn groes i Ddeddf Lladrata 1968. Cafodd orchymyn wedi ei gyfeirio am 5 mis a gorchymyn i dalu costau o £20. Yn Mai 2006 derbyniodd yr ymgeisydd ddwy gollfarn gan Lys Ieuenctid Gwynedd - un cyhuddiad o wrthsefyll neu rwystro person oedd yn cynorthwyo heddwas, ac un o ymosod ar heddwas, yn groes i Ddeddf Yr Heddlu 1996. Derbyniodd Orchymyn Cynllun Gweithredu am 3 mis ar gyfer y naill drosedd ynghyd a gorchymyn i gwblhau gweithgaredd cymunedol a gorchymyn penodol o 10 awr i wneud yn iawn am ei hymddygiad. Yng Ngorffennaf 2015 derbyniodd rybudd arall am ddirfod i eiddo oedd yn groes i Ddeddf Difrod Troseddol 1971.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn cadarnhau bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys rhybuddion.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.4 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded yn cael ei atal neu ddirymu os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd am drosedd a restrir, a bod y gollfarn o fewn 10 mlynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, ymosodiad ar yr Heddlu. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn

dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, mynd a cherbyd heb ganiatâd.

Mae paragraff 16.1 o’r Polisi yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau’n bodloni canllawiau’r polisi yn unigol, ond gyda’i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

d) Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod rhybudd 2003 yn drosedd o drais, fodd bynnag, gan fod y rhybudd wedi digwydd dros 16 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i’r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 6.5 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais. Ystyriwyd bod collfarn 2004 yn ymwneud â throsedd o anonestrwydd fodd bynnag, gan fod y gollfarn wedi digwydd dros 16 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i’r cyfnod 3 blynedd) nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Ystyriwyd bod collfarn 2006 yn ymwneud â throsedd o drais ac yn cael ei restru fel ‘ymosodiad ar yr heddlu’ o fewn paragraff 6.4. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn wedi digwydd dros 13 mlynedd yn ôl, (sydd tu hwnt i’r cyfnod 10 mlynedd) nid oedd paragraff 6.4 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais ar ei rinweddau ei hun. Ystyriwyd rhybudd 2015 hefyd fel un yn ymwneud a throsedd o drais. Fodd bynnag, gyda’r rhybudd dros 4 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i’r cyfnod 3 mlynedd) nid oedd yn sail i wrthod y cais.

Drwy ystyried rhybudd 2003, collfarn 2004, collfarn 2006 a rhybudd 2015 gyda’i gilydd, ffurfi’r patrwm o aildroseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill neu at eiddo. Gyda’r diwethaf o’r digwyddiadau hyn wedi digwydd 4 blynedd yn ôl ac felly o fewn cyfnod 10 mlynedd, daeth yr Is-bwyllgor i’r casgliad bod darpariaethau paragraff 16.1 yn berthnasol ac yn sail o blaid gwrthod y cais.

Amlygodd y Cyfreithiwr nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi ar yr argymhellion os yw ffeithiau'r achos yn cyfiawnhau hynny. Rhoddwyd sylw arbennig i baragraff 5.1 o’r adroddiad, sydd yn cynnwys difrifoldeb y troseddau, perthnasedd, dyddiad y cafodd y drosedd ei chyflawni, dyddiad y gollfarn ac oedran yr ymgeisydd ar adeg y gollfarn, y ddedfryd a roddwyd gan y Llys ac os yw’r troseddau yn perthyn i batrwm o droseddu, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Ystyriwyd mai rhybudd 2015 oedd yr unig ddigwyddiad a gofnodwyd o fewn y degawd diwethaf gyda rhybudd 2003 a chollfarnau 2004 a 2006 wedi digwydd pan oedd yr ymgeisydd o dan 18 oed. Derbyniwyd eglurhad llawn gan yr ymgeisydd am gefndir y digwyddiadau unigol a daethpwyd i’r canlyniad nad oedd cyswllt ffeithiol rhwng y digwyddiadau hyn.

dd) Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon gwyro oddi wrth y dybiaeth o blaid gwrthod y cais yn yr achos yma ac o dan yr amgylchiadau penderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:45am a daeth i ben am 11:30am

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 12.02.2020

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Angela Russell a Gareth Williams

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor. Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y digwyddiadau a hefyd ei amgylchiadau personol. Nododd ei fod wedi mynd drwy gyfnod anodd, personol oedd yn ymwneud a gwaeledd ei fab, colli ei dad a'i ffrind. Ategodd bod

ganddo gwmni tacsis o safon, ei fod yn cyflogi gyrwyr lleol a'i flaenoriaeth oedd cadw'r busnes. Gwahoddwyd tyst i gefnogi cais yr ymgeisydd.

Wedi cyflwyno'r dystiolaeth ymneilltuodd yr ymgeisydd, ei gyfreithiwr, a'i ffrind o'r ystafell ynghyd a'r Rheolwr Trwyddedu, tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**b) PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar gan yr ymgeisydd, ei gyfreithiwr a'i ffrind
- dogfennau a lluniau a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- llythyrau geirda a dderbyniwyd yn cefnogi cais yr ymgeisydd
- darn o ffilm teledu cylch cyfyng (digwyddiad 2018)
- recordiad o alwadau 999 (digwyddiad 2019)
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarn.
- Tystiolaeth a sylwadau Llys yr Ynadon

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd ffurfiol gan Heddlu Gogledd Cymru (Mai 2018) ar gyhuddiad o ymosod ar berson yn groes i adran 39 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

Yn Chwefror 2019 derbyniodd yr Adran Trwyddedu alwad gan yr Heddlu yn ei hysbysu bod aelod o'r cyhoedd wedi gwneud cyhuddiad o fod wedi dioddef ymosodiad corfforol gan yr ymgeisydd yn dilyn anghydfod ynglŷn â phris. Ni ddaethpwyd â chyhuddiadau troseddol yn erbyn yr ymgeisydd am y digwyddiad hwn. Yn dilyn y digwyddiad derbyniodd y Rheolwr Trwyddedu wybodaeth yn amlinellu ffeithiau'r digwyddiad a gwnaed penderfyniad i ddiddymu trwydded yr ymgeisydd er mwyn diogelu'r cyhoedd; yn unol â darpariaeth adran 61(1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Apeliodd yr ymgeisydd yn erbyn y penderfyniad ac yn dilyn gwrandawiad yn Llys Ynadon Caernarfon (Gorffennaf 2019) gwrthodwyd ei apêl o dan adran 60 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn erbyn penderfyniad y Cyngor ar 14 Mawrth 2019 i ddiddymu ei drwydded yrru hurio preifat / cerbydau hacni.

d) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 2.3 o'r Polisi lle cyfeirir at rybuddion ffurfiol.

Ystyriwyd paragraff 5.1 o'r polisi sydd yn ymwneud a gofynion yr Awdurdod Trwyddedu o faterion y dylid eu hystyried wrth benderfynu os yw'r ymgeisydd yn unigolyn 'addas a phriodol' ar gyfer trwydded.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos a'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai Is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Nodi'r ym mharagraff 6.2 y bydd cais lle mae ymgeisydd wedi ei gael yn euog o drosedd yn ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes ei fod yn **rhydd rhag collfarn o'r fath am 3 blynedd o leiaf**.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried (gan gynnwys rhybuddion) am ymosodiad cyffredin a /neu drosedd o dan A4 Trefn Gyhoeddus 1986 sydd **yn llai na 3 blynedd** cyn dyddiad y cais.

dd) Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y rhybudd o Fai 2018 ynghyd a digwyddiad Chwefror 2019 yn ymwneud a throseddau o drais. Gyda rhybudd Mai 2018 wedi digwydd 21 mis yn ôl a digwyddiad Chwefror 2019 ychydig dros flwyddyn yn ôl, roedd y ddau yn disgyn o fewn cyfnod 3 blynedd. Yn unol â pharagraff 6.5 o'r Polisi, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu roedd yr ystyriaethau cychwynnol yn glir o blaid gwrthod y cais. Er hynny, roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn ymwybodol mai canllaw yn unig oedd y Polisi a bod modd gwyro os oedd cyfiawnhad dros wneud hynny.

Wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth ddarpariaethau'r Polisi, ystyriodd yr Is-bwyllgor y rhesymeg tu ôl i'r penderfyniadau canlynol:

- diddymiad trwydded (Mai 2018)
- penderfyniad Is-bwyllgor i ganiatáu trwydded (Hydref 2018)
- diddymiad trwydded (Chwefror 2019)
- dyfarniad Llys yr Ynadon (Gorffennaf 2019) i apêl yn erbyn diddymiad Chwefror 2019

Ystyriwyd,

- y dystiolaeth a gyflwynodd yr ymgeisydd o'r digwyddiadau i'r Is-bwyllgor cyn y gwrandawiad ynghyd a llythyrau geirda
- yng nghyd-destun penderfyniadau blaenorol, sylwedd ac ansawdd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r fforymau perthnasol ynghyd â sut yr heriwyd y dystiolaeth yn y fforwm hwnnw.
- sefyllfa pan fydd ymgeisydd yn ceisio ail agor / herio materion ffeithiol sydd eisoes yn destun penderfyniad gan y Llys, bod gan yr Is-bwyllgor yr hawl i drin canfyddiadau'r Llys fel rhai terfynol; yn enwedig os bydd ymgeisydd yn ceisio herio'r un materion heb unrhyw dystiolaeth ychwanegol newydd, a/neu geisio cyflwyno tystiolaeth newydd ar y materion hynny y gellid fod wedi'u cyflwyno yn y Llys lle penderfynwyd yr apêl.

Yn dilyn diddymiad trwydded Mai 2018, cyflwynodd yr ymgeisydd gais newydd am drwydded yn Hydref 2018. Er mai argymhelliad yr Adran Trwyddedu oedd gwrthod y cais, penderfyniad yr Is-bwyllgor oedd caniatau'r cais oherwydd bod yr amgylchiadau wedi cyfiawnhau gwyro oddi ar y polisi am y rhesymau canlynol:

- Bod yr ymgeisydd wedi dangos edifeirwch dros yr ymosodiad
- Roedd y digwyddiad allan o gymeriad ac amlygwyd hyn yn y nifer o dystlythyrau a dderbyniwyd yn cefnogi cais yr ymgeisydd
- Nad oedd cofnod o unrhyw gollfarn na rhybudd arall yn erbyn yr ymgeisydd fel y nodwyd ar y cofnod DBS
- Bod yr ymgeisydd eisoes dan rybudd gan yr Heddlu ac felly'n ymwybodol i beidio â thorri'r gyfraith eto
- Nad oedd yr ymosodiad yn un o drais yn erbyn y cyhoedd ond yn hytrach yn erbyn cystadleuydd arall yn y diwydiant tacsi

- Nad oedd dioddefwr yr ymosodiad yn ddiniwed. Cafodd yr ymosodiad ei bryfocio mewn lleoliad o dan oruchwyliaeth Teledu Cylch Cyfyng
- Roedd yr ymosodiad wedi codi o ganlyniad i ymgyrch hir o aflonyddu a phryfocio gan ddioddefwr yr ymosodiad
- Cafwyd esboniad gonest pam nad oedd yr ymgeisydd heb apelio'r penderfyniad i ddiddymu ei drwydded - roedd yn mynd drwy gyfnod anodd, personol oedd yn ymwneud ag iechyd ei fab.

Ym marn yr Is-bwyllgor, roedd Is-bwyllgor 2018 yn amlwg wedi rhoi cyfle i'r ymgeisydd, gan fentro y byddai yn cymryd rhybudd yr Heddlu fel mater difrifol ynghyd a chamau rhagweithiol i gadw allan o unrhyw drafferth a fyddai'n bwrw amheuaeth bellach ar ei allu i fod yn berson addas a phriodol. Ar y sail honno daeth Is-bwyllgor 2018 i'r casgliad ei fod yn berson addas a phriodol. Fodd bynnag, yn dilyn digwyddiad Chwefror 2019, roedd angen i'r Is-bwyllgor ail ystyried penderfyniad a rhesymau Is-bwyllgor 2018 dros addasrwydd yr ymgeisydd i ddal trwydded.

Diddymwyd trwydded hurio preifat / cerbydau hacni yr ymgeisydd am yr eildro gan yr Adran Trwyddedu yn dilyn digwyddiad Chwefror 2019. Gwnaed y penderfyniad ar sail ymddygiad yr ymgeisydd yn nigwyddiadau Mai 2018 a Chwefror 2019.

Mewn apêl gan yr ymgeisydd i'r Llys Ynadon, o'r penderfyniad hwnnw, cyflwynwyd tystiolaeth byw o ddigwyddiadau 2018 a 2019 ynghyd a datganiadau tyst ysgrifenedig a recordiadau o alwadau ffôn a wnaed i'r heddlu.

- Nodwyd bod y Llys wedi ffafrio disgrifiad y diffinydd yn nigwyddiad 2018 ac nid disgrifiad yr apelydd. Wrth gyrraedd eu penderfyniad, amlygwyd bod Llys yr Ynadon wedi diystyru rhai o resymau Is-bwyllgor 2018; yn benodol, nad oedd y ffaith bod yr ymosodiad yn un o drais yn erbyn cystadleuydd o unrhyw arwyddocâd; nid yw'r Polisi'n gwahaniaethu rhwng y sawl sydd yn dioddef trais.
- Yn yr un modd, roedd y Llys hefyd yn ffafrio disgrifiad dioddefwyr yr ymosodiad yn nigwyddiad 2019 gan amlygu bod y digwyddiad yn un difrifol. Er yr ymddengys anghysondebau yn y dystiolaeth ynglŷn â diffyg anaf o ganlyniad i'r ymosodiad honedig, roedd y digwyddiad yn amlwg yn un amhleserus i'r teithwyr. O ganlyniad, canfu'r Llys nad oedd y Cyngor yn anghywir yn eu penderfyniad 'bod yr ymgeisydd yn unigolyn anaddas ac amhriodol ar gyfer trwydded' ar sail digwyddiadau 2018 a 2019. Gwrthodwyd yr apêl.

Ystyriwyd datganiad personol yr ymgeisydd lle'r oedd yn nodi;
- Ei fod wedi cael ei drin yn annheg o gymharu â gyrwyr eraill
- Nad oedd wedi cael cyfle / ei wahodd i drafod / cyflwyno tystiolaeth i ddigwyddiad 2019 gyda'r Adran Trwyddedu cyn derbyn diddymiad Mai 2019
- Bod ymchwiliadau'r Awdurdod Trwyddedu i ddigwyddiadau 2018 a 2019 a arweiniodd at ddiddymu ei drwydded yn ddiffygiol
- Bod yr ymgyrch o aflonyddu a phryfocio gan ddioddefwr ymosodiad 2018 yn parhau – dangoswyd lluniau teledu cylch cyfyng o ddigwyddiadau tu allan i'w gartref
- Nad oedd sail i gasgliadau Llys yr Ynadon o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd.
- Nad oedd yr heddlu wedi nodi unrhyw anafiadau corfforol ar y teithiwr pan wnaethant fynychu digwyddiad 2019.
- Nad oedd digwyddiadau 2018 a 2019 wedi digwydd yn y ffordd yr oedd y Llys wedi canfod eu bod wedi digwydd.
- Bod nifer o lythyrau geirda wedi ei gyfeirio ato yn cefnogi ei gais

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod canfyddiadau'r Llys yn glir a diamwys. Roedd y Llys wedi derbyn llawer o dystiolaeth ysgrifenedig, tystiolaeth ar lafar gan dystion byw a gafodd eu holi yn drwyadl, a chyflwynwyd dadl gyfreithiol gan y Cyngor

a’r ymgeisydd. O dan yr amgylchiadau, ystyriwyd bod y canfyddiadau hyn yn dwyn cryn bwysau.

Ystyriwyd bod cyflwyniad yr ymgeisydd i’r Is-bwyllgor yn gyfystyr ag ail-redeg y materion ffeithiol a gyflwynwyd i Lys yr Ynadon ynghylch digwyddiadau 2018 a 2019. Ni chanfu'r Is-bwyllgor unrhyw dystiolaeth bod unrhyw beth wedi newid yn sylweddol ers yr apêl ac roedd yr Is-bwyllgor o dan yr argraff bod yr ymgeisydd yn ei gwahodd i geisio diystyru canfyddiadau'r Llys.

e) Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, nid oedd yr Is-bwyllgor o’r farn bod y cais yn deilwng o wyro oddi ar ganllawiau’r polisi ac felly daethpwyd i’r casgliad nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai hawl i’r ymgeisydd gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor ac y dylid gwneud hynny i Brif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno o fewn 21 diwrnod o dderbyn llythyr yn cadarnhau penderfyniad yr Is-bwyllgor. Nodwyd hefyd petai’r ymgeisydd eisiau apelio yn erbyn penderfyniad Llys yr Ynadon yna dylid gwneud hynny drwy Lys y Goron

Dechreuodd y cyfarfod am 10:20am a daeth i ben am 14:40pm

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Edgar Owen a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y ddau ymgeisydd.
Nodwyd bod y ddau ymgeisydd wedi amlygu nad oeddynt eisiau i'r gwrandawiad gael ei ohirio oherwydd eu habsenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu'r cais.

Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol i ymhelaethu ar ei gais.

b) **PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon a Gwyrfai (Awst 2000) am fod yn feddw ac afreolus yn groes i adran 91(1) o Ddeddf Trosedd Cyfiawnder 1967. Cafodd ddirwy o £50 a gorchymyn i dalu £30 costau. Yn Ionawr 2007 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Gwynedd am ddefnyddio ymddygiad afreolus neu eiriau ymosodol/treisgar/dilornus oedd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod, trosedd yn groes i adran 5(1)(A) o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Derbyniodd 'ryddhad amodol' o 12 mis ynghyd a gorchymyn i dalu costau o £75.00.

d) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried (gan gynnwys rhybuddion) am ymosodiad cyffredin a /neu drosedd o dan A4 Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodi'r hefyd, ym mharagraff 6.6, y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd, neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

dd) Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarnau 2000 a 2007 yn droseddau o drais, fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd dros 12 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraffau 6.5 a 6.6 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

e) Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## 6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, datganiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr & Cherbydau, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol i ymhelaethu ar ei gais.

b) **PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu, datganiad DBS a datganiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr & Cherbydau
- Canllawiau y Sefydliad Trwyddedu
- Clip fideo o ddigwyddiad Ionawr 2019

ch) Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Mai 1982, derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am gyfres o droseddau. Roedd y drosedd gyntaf am ddwyn o gerbyd yn groes i Ddeddf Lladrata 1968. Roedd yr ail yn un o fyrgleriaeth, y trydydd am ddifrod troseddol yn groes i adran 1 Deddf Difrod Troseddol 1971 a'r pedwerydd yn un arall am ddwyn o gerbyd. Ar gyfer pob cyhuddiad unigol cafodd orchymyn gwasanaeth cymunedol 150 awr, gorchymyn i wneud cyfraniad at gymorth cyfreithiol o £75.00 a gorchymyn i dalu costau o £75.00.

Yn Nhachwedd 1983 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Pwllheli ar un cyhuddiad o geisio dwyn o gerbyd, yn groes i adran 1 o'r Ddeddf Lladrata 1968. Derbyniodd ddirwy o £60.00 a gorchymyn i dalu costau o £3.00. Yn Mai 1985 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Pwllheli am gyfres o gyhuddiadau – troseddau yn ymwneud a dwyn yn groes i adran 1 Deddf Lladrata 1968, ac o geisio bwrglera yn groes i adran 9(1)(B) Deddf Lladrata 1968. Derbyniodd ddedfryd o garchar ieuenctid am 6 mis a gorchymyn i dalu iawndal o £450.00.

Yn Hydref 1988 derbyniodd gollfarn gan Lys y Goron Caernarfon am gyhuddiad o ymosodiad a arweiniodd at niwed corfforol yn groes i adran 47 Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861. Derbyniodd ddedfryd o garchar am 9 mis, wedi ei atal am 6 mis.

Yn dilyn digwyddiad yn Ionawr 2019, derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Gogledd Orllewin Cymru (Medi 2019) am ymyrraeth beryglus ag offer traffig, yn groes i adran 22A(1)(c) Deddf Traffig Ffordd 1988. Derbyniodd ddirwy o £250.00, gorchymyn i dalu costau o £775.00 a gordal dioddefwr o £30.00.

Amlygwyd bod Heddlu Gogledd Cymru wedi datgelu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â digwyddiad Ionawr 2019 o'r ymgeisydd, wrth yrru tacsi ac yn cludo teithwyr, yn symud rhwystrau ffordd ar gau. Cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu bod fideo o'r digwyddiad wedi ei chylchredeg ar wefan gymdeithasol (un a honiwyd a oedd wedi ei dynnu ar ffôn symudol un o'r teithwyr yn y tacsi) o'r ymgeisydd yn symud y rhwystrau. Pan ddaeth y fideo i sylw swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu, cyflwynwyd y dystiolaeth i'r Heddlu. Ategwyd bod Swyddog Gorfodaeth o'r Awdurdod Trwyddedu wedi cadarnhau mewn datganiad ei fod yn adnabod yr ymgeisydd fel yr unigolyn yn y fideo. Darlledwyd y fideo i'r Is-bwyllgor.

Nodwyd yn yr adroddiad bod trwydded gyrru tacsi yr ymgeisydd wedi dirwyn i ben ychydig ddyddiau ar ôl i'r ymgeisydd dderbyn collfarn Medi 2019.

d) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded. Bydd disgwyl er hynny i berson fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai Is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried (gan gynnwys rhybuddion) am ymosodiad cyffredin a /neu drosedd o dan A4 Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodi'r hefyd, ym mharagraff 6.6, y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd, neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, byrgleriaeth a lladrata.

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro, fodd bynnag nid yw'r rhestr troseddau moduro yn cynnwys y drosedd o ymyrraeth beryglus mewn offer traffig.

Mae paragraff 14.1 o'r Polisi yn nodi os yw'r unigolyn yn destun cyhuddiad neu wŷs sydd heb ei ateb, gellir parhau i brosesu ei gais, ond er diogelwch y cyhoedd rhoddir ystyriaeth i'r mater, a gallai'r penderfyniad gael ei ohirio nes bod yr achos wedi dod i ben.

Mae rhan 17 o'r Polisi yn ymwneud â thorri deddf, is-ddeddf neu amod trwydded. Nodir ei fod yn annhebygol y rhoddir trwydded i ymgeisydd â ganddo gollfarn neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â thorri deddf, oni bai bod cyfnod o 12 mis wedi pasio ers yr achos mwyaf diweddar.

Yn ychwanegol i'r ddeddfwriaeth a'r Polisi, gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried canllawiau y Sefydliad Trwyddedu mewn perthynas ag addasrwydd a phriodoldeb ymgeiswyr am drwydded gyrru tacsi. Tynnwyd sylw yn benodol at baragraff 4.15 o'r canllaw, sydd yn argymell,

"*Any offence committed, or any unacceptable behaviour reported whilst driving a hackney carriage or private hire vehicle…will be viewed as aggravating features, and the fact that any other offences were not connected with the hackney carriage and private hire trades will not be seen as mitigating factors.*"

A pharagraff 4.26 sydd yn nodi,

"*A driver has direct responsibility for the safety of their passengers, direct responsibility for the safety of other road users and significant control over passengers who are in the vehicle. As those passengers may be alone, and may also be vulnerable, any previous convictions or unacceptable behaviour will weigh heavily against a licence being granted or retained.*"

dd) Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarnau 1982 a 1988 yn droseddau o drais. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd dros 31 mlynedd yn ôl (oedd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraffau 6.5 a 6.6 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais. Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarnau 1982, 1983 ac 1985 yn droseddau o anonestrwydd, fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd dros 34 mlynedd yn ôl (oedd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraffau 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Wrth ystyried collfarn Medi 2019, daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad nad oedd yn disgyn o fewn cynnwys rhan 12 o'r Polisi (collfarnau moduro) ac felly nid oedd yr argymhelliad o blaid gwahardd yn goroesi. Er hynny ystyriwyd bod y digwyddiad yn ymwneud â thorri deddf ac yn disgyn o fewn cynnwys rhan 17 o'r Polisi. Gyda'r digwyddiad wedi digwydd llai na 12 mis yn ôl roedd paragraff 17.1 o'r polisi yn berthnasol ac yn argymell gwrthod y cais.

Er yn ymwybodol nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a gall gwyro oddi wrtho os yw ffeithiau'r achos yn cyfiawnhau hynny, rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i baragraff 5.1 o'r Polisi. Yn yr achos yma, nid oedd y ffeithiau yn cyfiawnhau gwyro oddi ar yr argymhelliad o wrthod y cais.

Ystyriwyd nad oedd diffyg darpariaeth berthnasol yn y Polisi yn golygu na ellid gwrthod cais. Eglurwyd petai'r Is-bwyllgor o'r farn bod collfarnau, ynghyd a materion eraill yn golygu nad yw'r ymgeisydd yn addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr hacni / hurio preifat, yna gellid gwrthod y cais gyda chefnogaeth ac arweiniad y Sefydliad Trwyddedu.

Ystyriwyd bod digwyddiad Ionawr 2019 yn un difrifol iawn. Tra yn yrrwr tacsi trwyddedig bu i'r ymgeisydd symud rhwystrau ffordd er mwyn parhau gyda'i daith. Gweithredodd yn anghyfreithlon a dangosodd ddiffyg gwerthfawrogiad at iechyd a diogelwch y teithwyr gan eu rhoi mewn sefyllfa o risg sylweddol.

Yn nhyb yr Is-bwyllgor, nid oedd paragraff 14.1 o'r Polisi yn berthnasol yn yr achos yma gan nad oedd sefyllfa lle mae'r ymgeisydd yn disgwyl dyfarniad mewn perthynas â chyhuddiad yn ei erbyn. (Nodwyd bod y digwyddiad yn destun apêl yn Llys y Goron). Fodd

bynnag, cyfeirio at wŷs heb ei ateb mae'r Polisi ac ystyriwyd bod y wŷs a dderbyniodd yr ymgeisydd yn Ionawr 2019 wedi ei ateb oherwydd iddo gael ei gollfarnu gan Lys Ynadon Caernarfon yn Medi 2019. O ganlyniad, gan nad yw paragraff 14.1 yn berthnasol, nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod sail i ohirio'r cais oherwydd yr apêl i Lys y Goron.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar holl wybodaeth yn ofalus, nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai hawl i'r ymgeisydd gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor ac y dylid gwneud hynny i Brif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno o fewn 21 diwrnod o dderbyn llythyr yn cadarnhau penderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:15am a daeth i ben am 11:00am

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 21.11.2019**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes a John Brynmor Hughes

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

   Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Amlygwyd bod cais gan Mr A i adnewyddu ei drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat wedi ei wrthod gan Is bwyllgor 21.11.18. Nododd Mr A bod y digwyddiad wedi cymryd lle ar ei noson stag a bod ei ymddygiad allan o gymeriad. Roedd yn edifar am yr hyn a wnaeth ac eglurodd ei fod wedi ymddiheuro i berchennog y siop am ei ymddygiad ar y bore canlynol. Nid oedd yn ymwybodol bod derbyn rhybudd yn cael ei ystyried fel collfarn ac y byddai yn ymddangos ar ei gofnod DBS. Mynegodd ei fod bellach yn gweithio ac wedi derbyn cymhwyster ymatebydd cyntaf – cyflwynodd ddatganiad personol, tystlythyrau a geirda i gefnogi ei gais.

Nid oedd gan ei ddarpar gyflogwr (petai y cais yn cael ei ganiatáu) unrhyw sylw ychwanegol

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- datganiad personol yr ymgeisydd , tystlythyrau / geirda

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarnau am gyfres o droseddau (Ionawr 2010). Roedd y drosedd gyntaf am fethu ac ildio i'r ddalfa ar yr amser a nodwyd yn groes i ofynion adran 6 Deddf Mechnïaeth 1976. Cafodd ddirwy o £100 a gorchymyn i dalu £85 costau. Roedd yr ail drosedd o fod yn feddw ac afreolus o dan Adran 91 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967 (Ionawr 2010) lle cafodd ddirwy o £50. Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Wolverhampton (Chwefror 2010) am ddinistrio eiddo yn groes i adran 1 Deddf Difrod Troseddol 1971. Cafodd ddirwy o £65 a gorchymyn i dalu costau o £85. Yn Mai 2017 derbyniodd yr ymgeisydd rybudd gan Heddlu Gogledd Cymru am ddefnyddio geiriau / ymddygiad bygythiol a sarhaus / ymddygiad afreolus er mwyn achosi braw / trallod yn groes i Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn cadarnhau bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys rhybuddion.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.  Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried (gan gynnwys rhybuddion) am ymosodiad cyffredin a /neu drosedd o dan A4 Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodi'r hefyd, ym mharagraff 6.6, y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd, neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny o fewn y 10 mlynedd diwethaf

Rhoddodd yr Is Bwyllgor ystyriaeth hefyd i baragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor sydd yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo.  O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod troseddau y cais hwn yn union yr un fath â'r rhai a gafodd eu hystyried gan Is-bwyllgor 21 Tachwedd 2018 mewn cysylltiad â chais blaenorol a wnaed gan yr ymgeisydd yn 2018 am drwydded yrru cerbyd hacni / hurio preifat. Er nad oedd yr Is-bwyllgor presennol wedi'i ymrwymo'n llwyr gan ganfyddiadau Is-bwyllgor 2018, rhoddwyd sylw dyledus iddynt.

Canfu Is-bwyllgor 2018 nad oedd unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Polisi oedd yn berthnasol i'r troseddau o fod yn methu ag ildio i fechnïaeth a bod yn feddw ac yn afreolus. Er bod y troseddau hyn yn rhai a ystyriwyd yn ddifrifol, yng ngoleuni eu natur hanesyddol ac yn absenoldeb unrhyw Bolisi perthnasol a oedd yn argymell gwrthod, nid oedd y collfarnau hyn, yn unigol, yn sail i wrthod y cais. Roedd Is-bwyllgor y cais cyfredol yn cytuno.

Wrth ystyried rhybudd 2017, canfu Is-bwyllgor 2018 fod y rhybudd mewn perthynas â throseddau trais. Daeth Is-bwyllgor 2019 i'r un canlyniad.

Gyda'i gilydd, roedd Is-bwyllgor 2018, yn ystyried bod collfarnau 2010 a rhybudd 2017 yn golygu bod mwy nag un gollfarn neu fater i'w ystyried yn disgyn o fewn 10 mlynedd am drosedd o natur dreisgar, ac felly, o dan baragraff 6.6 o'r Polisi roeddynt yn sail i wrthod y cais. Yn ychwanegol, roedd yr Is bwyllgor o'r farn bod troseddu dro ar ôl tro gan ddangos diffyg parch at les eraill neu am eiddo, yn berthnasol i baragraff 16.1 o'r polisi.

Blwyddyn yn ddiweddarach, ystyriwyd bod collfarn 2010 a rhybudd 2017 yn parhau i gyfrif fel 'mwy nag un collfarn neu fater i'w ystyried o fewn 10 mlynedd ar ôl gwneud cais' ac y byddai hyn yn aros felly hyd ddiwedd y cyfnod 10 mlynedd – yn yr achos yma 7 Chwefror 2020. Roedd ail droseddu gan ddangos diystyrwch i eraill neu eiddo hefyd yn parhau o fewn 10 mlynedd ac felly, o dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor presennol yn fodlon bod y rhagdybiaethau o blaid gwrthod o dan baragraffau 6.6 a 16.1

o'r Polisi yn gymwys. Hyd yn oed pe bai collfarn 2010 yn cael ei diystyru, roedd rhybudd 2017 yn parhau yn ddigonol fel sail i wrthod y cais o dan baragraff 6.5 o'r Polisi hyd ddiwedd y cyfnod tair blynedd – yn yr achos yma 29 Mai 2020.

Amlygodd y Cyfreithiwr nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi ar yr argymhellion os yw ffeithiau'r achos yn cyfiawnhau hynny. Rhoddwyd sylw arbennig i baragraff 3.5 o'r adroddiad, sydd yn cynnwys difrifoldeb y troseddau, perthnasedd, dyddiad y cafodd y drosedd ei chyflawni, dyddiad y gollfarn ac oedran yr ymgeisydd ar adeg y gollfarn, y ddedfryd a roddwyd gan y Llys ac os yw'r troseddau yn perthyn i batrwm o droseddu, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Wedi ystyried cefndir y digwyddiad yn 2017 nid oedd Is Bwyllgor 2018 yn fodlon, er i'r ymgeisydd gyfaddef ei fod yn euog, bod y rhesymau dros ei ymddygiad yn ddigonol i esgusodi'r drosedd. Nodwyd bod gan yr ymgeisydd drwydded gyrru hacni ar yr amser y derbyniodd rybudd gan Heddlu Gogledd Cymru ond nad oedd y wybodaeth yma wedi cael ei rannu gyda'r Adran Trwyddedu. Ymddengys bod y wybodaeth wedi ei rannu wrth gwblhau cais adnewyddu trwydded. Er eglurhad yr ymgeisydd nad oedd yn ymwybodol bod angen datgelu'r wybodaeth am y rhybudd nid oedd yr Is Bwyllgor yn derbyn hyn gan fod ffurflen gais am drwydded yn nodi yn glir yr angen am wybodaeth troseddau a rhybuddion. Fel gyrrwr, dylai fod yn ymwybodol o'r angen yma.

Ystyriodd yr Is bwyllgor nad oedd yr ymgeisydd wedi gwneud datganiad gonest i'w gyflogwr a bod hyn yn amlygu ynddo'i hun, nad oedd yn berson addas a phriodol.

Fodd bynnag, o dderbyn datganiad personol, tystlythyrau a geirda oedd, ymhlith materion eraill, yn gysylltiedig â'r digwyddiad a arweiniodd at rybudd 2017 roedd yr Is-bwyllgor yn derbyn bod yr ymgeisydd ar delerau da â pherchennog y siop a'i fod wedi ymddiheuro am ei ymddygiad. Er nad yw'n esgusodi'r drosedd, roedd yn darparu cyd-destun pwysig i'r Is-bwyllgor ei ystyried o ran gwyro oddi wrth gwrthod y cais. Yn dilyn y penderfyniad gan Is-bwyllgor 2018 nad oedd yr ymgeisydd yn addas a phriodol oherwydd iddo beidio â datgelu manylion ei droseddau i'w gyflogwr, roedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno tystlythyrau cymeriad ychwanegol i gefnogi ei ail gais. Ystyriwyd hefyd waith yr ymgeisydd ynghyd a'i gyfrifoldeb fel ymatebydd cyntaf - dwy swydd sydd yn gofyn am lefel uchel o ymddiriedaeth.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor bod anonestrwydd yr ymgeisydd i ddatgelu ei droseddau i'r Adran Trwyddedu a chyn gyflogwr bellach wedi eu gwyrdroi gan i'r ymgeisydd ddysgu o'i gamgymeriadau a newid cyfeiriad ers penderfyniad 2018 drwy dderbyn cyfrifoldebau ac ennill ymddiriedaeth yn ei swyddi.

Nododd Cadeirydd yr Is-bwyllgor nad oedd y cais yn un syml i'w benderfynu, fodd bynnag, wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon gwyro oddi wrth y Polisi a phenderfynu bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

d) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, datganiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr & Cherbydau, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y collfarnau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Eglurodd bod Mr B wedi newid cyfeiriad ac nad oedd ei riant wedi cyfeirio llythyrau ymlaen ato. O ganlyniad methodd ymateb i hysbysiad dirwy am fethu talu toll.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**e) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

f) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu, datganiad DBS a datganiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr & Cherbydau

Yn mis Hydref 2015 derbyniodd yr ymgeisydd dri phwynt cosb am dorri terfyn cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus. Yn Hydref 2017 derbyniodd 6 pwynt cosb am fethu a rhoi gwybodaeth am hunaniaeth y gyrrwr.

Nid oedd materion pellach i'w hystyried.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb

ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn cadarnhau bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys rhybuddion.

Mae paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae MS90 (methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth y gyrrwr) gyda 12.3 yn nodi y byddai cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

Ystyriwyd paragraff 13.1 sydd yn amlygu bod troseddau sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb yn 'fân droseddau traffig'. Mae paragraff 13.2 yn nodi na fyddai collfarn neu fater arall i'w ystyried am fân drosedd traffig yn debygol o arwain at wrthod cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 2015 am oryrru yn drosedd mân a gyda'r pwyntiau wedi eu terfynu ym mis Hydref 2018, penderfynwyd nad oedd yn sail i wrthod y cais. Daeth yr Is bwyllgor i'r casgliad bod methu a rhoi gwybodaeth am hunaniaeth yn drosedd draffig difrifol. Fodd bynnag, gan fod hyn wedi digwydd dros 6 mis yn ôl, nid oedd paragraff 12.3 yn berthnasol a'r Is bwyllgor yn fodlon nad oedd yn sail i wrthod y cais.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:00pm

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 15 Mawrth 2021 |
| TEITL: | FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2021/22 |
| PWRPAS: | CYMERADWYO FFIOEDD ARFAETHEDIG AR GYFER YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei ffioedd mewn perthynas â Thrwyddedu tacsis (h.y. trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gweithredwyr hurio preifat a gyrwyr) yn rheolaidd. Penderfynodd y Pwyllgor hwn yn ôl yn 2013 y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol.

1.2 Mae Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol -

- I ganiatáu trwydded gyrrwr ar gyfer cerbyd hacni neu hurio preifat – costau ynghlwm â phrosesu, gweinyddu a rhoddi trwyddedau.
- I ganiatáu trwydded cerbyd a gweithredwr - costau archwilio, arosfa cerbyd hacni, rhybuddion cyhoeddus, rheoli a goruchwylio cerbydau ac unrhyw gostau eraill ynghlwm â phrosesu cais.

1.3 Rhaid i'r ffioedd a godir fod yn rhesymol a phenderfyniad y Cyngor yw p'un a yw'r ffioedd yn cael eu gosod ar lefel i alluogi adennill costau'n llawn neu'n rhannol, ai peidio **Penderfynodd y Pwyllgor hwn yn 2013 fod yn rhaid i ffioedd Trwyddedu tacsi gael eu hadolygu i adennill costau'n llawn.**

1.4 Cynyddwyd ffioedd tacsi gan 25% yn 2013 a 19.78% , a 10.78% yn 2015 er mwyn adennill y costau'n llawn. Ni chynyddwyd y ffioedd o gwbl yn 2016/17 nac ychwaith yn 2017/18, ac fe gytunwyd i gofi'r ffioedd ar gyfartaledd o 28% ar draws yr amrywiol ffioedd trwyddedau tacsi ar gyfer 2018/19.

## 2 EFFAITH Y PANDEMIG AR Y DIWYDIANT TACSI

2.1 Fel y gwyddom, mae'r Pandemig Covid-19 ers y cyflwynwyd y cyfnod clo cyntaf yn ol ym Mis Mawrth 2020 wedi cael effaith bell gyrhaeddol ar y sector gyhoeddus a'r sector breifat; ac nid yw'r diwydiant tacsi yn eithriad yn hyn o beth.

2.2 Fel mae ysgolion wedi bod ar gau, pobl yn aros gartref a dim ymwelwyr yn teithio i 'r sir; mae'r diwydiant tacsi wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y galw am eu gwasanaethau.

2.3 Mae colledion incwm wedi bod yn sylweddol, ac wedi golygu fod rhai gyrwyr wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r gwaith a pheidio adnewyddu eu trwyddedau. Mae eraill wedi gofyn am gael gohirio adnewyddu eu trwyddedau hyd nes bod busnes yn codi pan mae'r cyfnod clo diweddaraf yn dechrau llacio yn raddol. Rydym wedi cynnig ychydig o hyblygrwydd yn hyn o beth ; a hefyd wedi cynnig opsiynau talu amgen fel y gall gyrwyr tacsi gesio talu am eu trwyddedau fesul dipyn , er enghraifft.

2.4 Mae ceisiadau wedi eu derbyn gan gwmniau tacsi yn ardal Bangor a Llanberis yn gofyn i'r Pwyllgor hwn ystyried cynnig disgownt ar ffioedd trwyddedau tacsi yn y flwyddyn ariannol hon oherwydd effaith sylweddol yr argyfwng covid ar y diwydiant. Mae copi o'r e bost wedi ei yrru i chwi fel aelodau, ac fe atodaf gopi o'r e bost a dderbyniwyd; ynghyd a fy ymateb iddo yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

2.5 Mae'r argyfwng Covid wedi effeithio ar y diwydiant mewn amryw ffyrdd eraill hefyd. Dengys tystiolaeth feddygol fod y risgiau o ddal haint Covid 19 yn uwch i yrwyr tacsi nac ymysg y boblogaeth gyffredinol; ac mae galw cynyddol ar i weithwyr yn y diwydiant gael eu hystyried fel gweithwyr allweddol a derbyn blaenoriaeth ar gyfer brechu .

2.6 Yn ogystal; noder fod llawer o yrwyr tacsi wedi bod yn gweithredu cytundebau Cludiant ar gyfer ysbytai, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol - yn ogystal â bod yn cludo gweithwyr hanfodol fel gweithwyr Iechyd a Gofal i'w gwaith yn ystod y Pandemig.

2.7 Mae'r Uned Drwyddedu ac adran Datblygu Economi'r Cyngor wedi bod yn ceisio cefnogi 'r Diwydiant drwy gydol y Pandemig drwy gynnig arweiniad ynglŷn â'r cyfyngiadau a rhagofalon covid, a sicrhau fod gan fusnesau fynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf ar sut i geisio am gymorth ariannol.

2.8 Yn ddiweddar, fe roddwyd rhestr o bob deilydd trwydded tacsi i Lywodraeth Cymru fel bod gyrwyr tacsi yn gallu hawlio pecynnau PPE am ddim gan y Llywodraeth.

**3. ASESIAD ARIANNOL & CYNNIG AR GYFER 2021-22**

3.1 Nid yw'r ffioedd wedi eu newid ers 2019. Fe benderfynwyd cadw'r ffioedd yr un fath ar gyfer 2020/21 pan adolygwyd y sefyllfa ym Mawrth 2020; gan fod effeithiau'r pandemig Covid ar y diwydiant yn cael eu hamlygu bryd hynny. Mae'r argyfwng yn parhau i effeithio ar y diwydiant ar hyn o bryd wrth gwrs; ond gyda dyfodiad y Cynllun Brechu cenedlaethol , mae gobaith y bydd y sefyllfa yn gwella dros y misoedd nesaf, fel mae gwahanol sectorau yn cael agor yn raddol; cyn belled a bod y cyfraddau haint yn y boblogaeth yn dal i ddisgyn.

3.2 Fe fu gostyngiad sylweddol yn incwm y Cyngor yn ystod yr hanner cyntaf o'r flwyddyn ariannol bresennol ,ond mae lefelau incwm o drwyddedau tacsi bellach wedi cynyddu; gydag incwm erbyn mis Chwefror 2021 yn sefyll ar oddeutu 16% yn is nag ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20.

3.3 Rhaid cofio wrth gwrs , fel y nodwyd eisoes; na ellir cynyddu ffioedd tacsi er pwrpas cynnyddu incwm; dim ond er pwrpas adennill costau derbyn, prosesu a gweinyddu trwyddedau.

3.4 Nid oes newidiadau deddfwriaethol, nac mewn polisi wedi digwydd yn ddiweddar sydd yn golygu nad yw costau prosesu'r trwyddedau hyn wedi cynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae newidiadau ar y gorwel flwyddyn nesaf, megis cwblhau'r adolygiad y Polisi Tacsi Unedig, fydd yn mabwysiadu argymhellion Safonau Statudol Cerbydau Hacni a Hurio Preifat Cenedlaethol yr Adran Drafnidiaeth; yng nghyd ag unrhyw ganllawiau newydd fydd yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

3.5 O ystyried y r oll o'r ffactorau a nodir, credir nad oes cyfiawnhad dros gynyddu 'r ffioedd trwyddedau tacsi yn sylweddol am y flwyddyn ariannol nesaf. Cynigir felly fod cynnig yn cael ei ystyried i gynyddu pob ffi Trwyddedu tacsis i ystyried cynnydd mewn chwyddiant dros y ddwy flynedd diwethaf yn unig .Mae hyn yn gyfystyr i gynnydd o 2.56% ar bob ffi trwydded fel a ganlyn -

3.2 TABL O FFIOEDD CYFREDOL AC ARFAETHEDIG

| **ffioedd arfaethedig tacsis** | **ffi gyfredol £** | **Ffi arfaethedig £ 2020/21 - cynnydd chwyddiant 2.56%** |
|---|---|---|
| | | |
| trwydded gyrrwr blwyddyn | 233 | 239 |
| trwydded gyrrwr 3 | 270 | 277 |
| | | |
| trwydded cerbyd HACNI newydd | 232* | 238 |
| trwydded cerbyd HACNI adnewyddu | 197* | 202 |
| Ffi trosglwyddo trwydded CH i berchennog newydd | 75 | 77 |
| Trwydded HP newydd | 269* | 276 |
| Trwydded HP adnewyddu | 197* | 202 |
| Ffi trosglwyddo trwydded HP i berchennog newydd | 75 | 77 |
| Trwydded cerbyd HP amodol | 171 | 175 |
| | | |
| Trwydded gweithredwr 1 blwyddyn | 236 | 242 |
| trwydded gweithredwr 3 mlynedd | 275 | 282 |
| trwydded gweithredwr 5 mlynedd | 329 | 337 |

*Cyfanswm yn cynnwys platiau tu mewn a thu allan (hacni a hurio preifat), a sticer (hurio preifat)

## 4. <u>YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT</u>

4.1 Unwaith y bydd y Pwyllgor hwn yn gwneud penderfyniad ar y ffioedd arfaethedig bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cychwyn yn unol â'r gofynion statudol.

4.2 Mae Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn datgan bod yn ofynnol i rybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd ymddangos yn y wasg leol. Mae amserlen benodol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus; ac ni fydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn dod i rym hyd nes y bydd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol wedi ei ystyried yn ddiweddarach gan y Pwyllgor hwn. Fe fydd ymgynghoriad uniongyrchol drwy lythyr yn digwydd cyn y dyddiad y bydd y rhybudd yn ymddangos yn y wasg leol ; er mwyn caniatáu digon o gyfle i'r diwydiant amlygu unrhyw bryderon.

4.3 Fe fydd y rhybudd yn y wasg yn cynnwys y dyddiad pan fydd y ffioedd yn dod yn weithredol, 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ar yr amod na cheir gwrthwynebiadau i’r ffioedd. Bydd rhaid i unrhyw wrthwynebiadau i’r ffioedd gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn yn ystod ei gyfarfod nesaf mis Medi 2018, a rhaid gwneud penderfyniad ar lefel y ffioedd yn unol â hynny. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol hyd oni geir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor hwn

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i godi’r ffioedd i’r lefel a argymhellir ; yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda’r diwydiant tacsi ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus.

**Oddi wrth:** Chris Oneal <chris@premiercarsbangor.co.uk>
**Anfonwyd:** Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2020 13:58
**At:** Roberts Gwenan Mai (AMG) <gwenanmairoberts@gwynedd.llyw.cymru>
**Copi/Cc:** dennistaxi@yahoo.co.uk; snowdoniataxi@hotmail.com; Roberts Alun Merfyn (AMG) <alunmerfynroberts@gwynedd.llyw.cymru>; Chubbs Cabs <dafyddchubb@btconnect.com>; edmonds998@gmail.com
**Pwnc:** Covid - 19 Support

Gwenan,

Please can the following be forwarded to councillors that sit on the licensing committee for their consideration.

Councillors,

Firstly,  may I thank you for giving the contents of this email some consideration in advance.

As you may be aware we are one of the larger operators of taxis within your county.

Covid - 19 undoubtedly has had a major impact on everything from people to businesses and trust me we as a company along with the other operators out there have suffered badly for at least 6 months of this.

Intermittently we have been able to carry out work but we as an operator using digital systems we can evidence that in certain lockdown period we went from doing 3000+ jobs per week to the lowest point of 564 jobs in one week.   If covid is having that sort of impact on a larger company like ourselves it must be damaging the one man bands and the smaller companies immensely too.

Therefore I ask you to consider that the licensing committee approves a **50 %** reduction on all drivers' **next** vehicle license application for operators of **5 + Vehicles** and a 1**00 %** reduction on all operators who operate **1-4 vehicles.**

You will see from the above we are certainly not just in this for ourselves as the biggest reduction I'm asking for is the smaller operators, therefore I encourage you to show your support for this trade here in Gwynedd and consider my request which if accepted would im sure be welcomed by all of the trade.

Once again thank you for your time.  Stay Safe & Keep Well

Diolch

Chris

Christopher James Oneal
**Premier Cars Bangor Ltd**

**Oddi wrth:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Anfonwyd:** Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2020 13:01
**Pwnc:** Covid - 19 Support
**Pwysigrwydd/Importance:** Uchel

Dear Mr O'Neal,

Thank you for your e mail below dated the 1st of December. I do agree with you that the unprecedented effects of the covid 19 pandemic has had a very negative impact on many businesses over the last 9 months . The tough restrictions placed on hospitality, travel and school closures during the first lockdown has had a substantial impact on the taxi trade. We note that many companies have decided not to renew all of their fleet vehicle licences due to a drop in demand and many drivers have been left seeking alternative employment.

As a licensing authority we will be undertaking a review of all licence fees within the next few months. The legislation states that fees must be reviewed so as to ensure that they are fair and proportionate, and that fees are not charged at a rate over and above the actual costs of processing, granting and issuing of licences . Once the fees have been reviewed , the members of the licensing committee will be required to consider the fees, and make a decision on whether or not the fees should be changed.
I will be sending your e mail on to members of the licensing committee as requested ; and will kindly request that consideration is given to the effects of the covid 19 pandemic when a decision is to be made during the fee setting process at the beginning of the year.

The councillors will set the fees on a cost recovery basis; and the proposals will be subject to public consultation; allowing the taxi trade an opportunity to comment.

In the meantime , taxi companies experiencing difficulties can discuss options with our finance department for spreading the costs of licences, or the renewal of some licences; such as annual vehicle licences can be deferred until such time as business picks up enough for the vehicles to be licenced for use again.

There is also financial help available for many small businesses adversely affected by the covid 19 restrictions. It is my understanding that the take up of qualifying grants from Welsh Government by the taxi trade has been low – and we would encourage you and all the other businesses in the trade to make enquires as to the financial help available. Some information has been e mailed out to the trade with relevant information on grants; but here are some links to information on the financial help available currently –
**Gwynedd Council – Business Support**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

https://twitter.com/BusnesGwynedd

**Gwynedd Business Network**

https://www.gwyneddbusnes.net/
https://twitter.com/gwyneddbusnes

**Business Wales**

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/

https://twitter.com/_businesswales

I hope the information in these links provide some assistance.

Sincerely

**Gwenan Mai Roberts**
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd | Public Protection Manager
Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu | Pollution Control and Licensing